



Adroddiad Blynyddol

2023-2024

Cynllun Cydraddoldeb 2020-2024

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

www.npt.gov.uk/equalities



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Datblygiadau yn ystod 2023-2024.....	2
Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028	2
Asesiadau Effaith Integredig	2
Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus	3
Ymgysylltu	3
Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth	4
Cynnydd o ran yr Amcanion.....	5
Addysg.....	5
Iechyd a Llesiant	11
Diogelwch Personol	17
Cyflogaeth.....	29
Cyfranogiad	29
Safonau byw	36

Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol drwy ffonio 07805 771506 neu e-bostio: polisi@npt.gov.uk

Cyflwyniad

Pleser yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2023-24 sy'n manylu ar gynnydd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn rhoi trosolwg o'n gwaith i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae hefyd yn cyflwyno'r cynnydd yn erbyn y chwe amcan cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Adroddir am gynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig yn bennaf ar sail flynyddol, fodd bynnag, mae yna rai achosion lle'r adroddir am flynyddoedd academiaidd a chyfnodau eraill o amser ar brydiau, a nodir pob un o'r rheiny.

Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol (a'r olaf) ar gynnydd tuag at fodloni'r amcanion cydraddoldeb yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y cyngor. Cyhoeddwyd y cynllun diwygiedig diweddaraf (ar gyfer 2024-2028) ym mis Medi 2024.



Datblygiadau yn ystod 2023-2024

Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028

Mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ddiwygiedig 2023-2028 ar 12 Gorffennaf 2023. Nod y strategaeth yw sicrhau, erbyn 2028, y bydd yr iaith Gymraeg yn fwy clywadwy a gweladwy yn ein cymunedau ac yn cael ei defnyddio gan fwy o bobl yn eu bywydau beunyddiol. Mae'n cyflwyno sut byddwn ni'n gweithio tuag at wireddu'r themâu o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun) yn y fwrdeistref sirol.

Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus

Mabwysiadwyd Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y cyngor ym mis Ebrill 2023, ac ers hynny gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o'r camau yn y cynllun gweithredu yn ystod 2023-24.

Cynhaliwyd gwaith estyn allan cyffredinol gan ddefnyddio adnoddau democrataidd y Comisiwn Etholiadol i ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o bleidleisio a chofrestru pleidleiswyr 16-17 oed ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol.

Lluniwyd Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc, gyda fersiwn addas i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei deall ar gael. Datblygwyd hyfforddiant yn gysylltiedig â hyn a chyflawnwyd gwaith gyda'r holl dimau Addysg.



Asesiadau Effaith Integredig

Mae Asesiadau Effaith Integredig (AEI) yn parhau i gael eu cynnal fel rhan o ddatblygu polisi/gwasanaeth. Fel corff cyhoeddus, mae'n rhaid i ni ystyried 'tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisiau ac arferion ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig' (Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb: Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus Rhestredig yng Nghymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2014).

Yn dilyn archwiliad o'r Asesiadau Effaith Integredig yn 2021-2022, datblygwyd cynllun gweithredu i sicrhau gwreiddio arfer gorau ar hyd y broses. Ym mis Tachwedd 2023, fel rhan o'r cynllun gweithredu, ychwanegwyd adrannau sosio-economaidd a bioamrywiaeth at yr offeryn asesu cam cyntaf, yn ogystal â datblygu adran newydd ar dystiolaeth ar gyfer yr offeryn hwnnw.

Cafodd y Canllawiau Asesu Effaith Integredig llawn eu diweddarau hefyd yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu i gryfhau'r gwaith cychwynnol i adnabod a monitro effaith unrhyw benderfyniadau a wneir.

Ymgysylltu

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus 'Parhewch i Sgwrsio' yn ystod haf 2023 er mwyn sicrhau dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n bwysig i bobl a darlun clir o'r newidiadau ym mywydau pobl ers i ymarferiad gwreiddiol 'Dewch i Sgwrsio' gael ei gynnal yn ôl yn 2021-2022.

Yn ystod ymgyrch wreiddiol 'Dewch i Sgwrsio', roedd yn glir mai prif ffocws ein trigolion, ein sefydliadau cymunedol a'n busnesau oedd cadw ffrindiau, teulu a chwsmeriaid yn ddiogel wrth barhau i lacio cyfyngiadau ac ailgydio mewn bywyd beunyddiol. Er bod hynny'n dal yn bwysig i bobl, pan ofynnwyd, 'beth sy'n bwysig i chi ar gyfer y dyfodol' roedd ymatebion ymgyrch 'Parhewch i Sgwrsio' 2023 yn cynnwys amddiffyn ein heconomi leol, ein hamgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant. Defnyddiwyd yr adborth a gasglwyd trwy'r ymarferiad diweddaraf hwn i ddatblygu'r blaenoriaethau a gyflwynir yn ein Cynllun Corfforaethol 2024-2027.

Mae cyflogeion y Cyngor hefyd yn grŵp o randdeiliaid pwysig a gwerthfawr. Mae bron 70% ohonynt yn byw yn y fwrdeistref sirol, felly mae ganddynt safbwynt gwerthfawr ar gyflwyno a defnyddio gwasanaethau'r cyngor.

Lansiwyd ein Harolwg blynyddol Ymgysylltu â Chyflogeion cyntaf ar gyfer y cyngor cyfan ar 13 Mawrth 2024. Mae'n cynnig mecanwaith allweddol ar gyfer llais y cyflogai, gan alluogi gweithwyr i fynegi barn wrth y cyngor a dylanwadu ar y materion sy'n effeithio arnyn nhw yn y gwaith. Mae'r arolwg yn bwynt cyswllt mewn amser a thrwy ei gynnal bob blwyddyn bydd yn ein helpu i amlygu themâu a phatrymau dros amser a gweld a yw pethau'n newid – e.e. yn gwella, yn aros yr un fath, neu'n gwaethygu. Trefnwyd bod yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth

Mae'r data cydraddoldeb mewn cyflogaeth yn yr adroddiad yn cwmpasu'r 12 mis rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, neu'n rhoi ciplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2024, lle bo hynny'n fwy priodol.

Mae ein hadroddiad ar y bwloch cyflog rhwng y rhywiau, ciplun ar 31 Mawrth 2024, yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog y dynion a'r menywod sy'n gweithio i'r cyngor yn 2020.

Cymerwyd y data cyflogau fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024 gyda gweithlu o **6549** o weithwyr yn y cyngor, sy'n cynrychioli (**29%**) o wrywod a (**71%**) o fenywod. (Nid yw'r data cyflogau yn cynnwys cyflogeion achlysurol a holl gyflogeion ysgolion.)

Nid yw'r data ynghylch y bwloch cyflog rhwng y rhywiau ar gael ar gyfer 2023-2024 ac fe'i cyhoeddir mewn adroddiad yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth 2023, roedd y bwloch cyflog cymedrig yn 3.67% ac roedd y bwloch cyflog canolrifol yn 3.28%. Mae'r bwloch cyflog cymedrig wedi lleihau o 4.26% yn 2022.

Cynnydd o ran yr Amcanion

Addysg

Sicrhau bod plant a phobl ifanc y gorau gallan nhw fod

Blaenoriaeth 1.1 Bydd lefelau cyrhaeddiad pob Plentyn a Pherson Ifanc wedi gwella

Cam gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i ganfod y plant hynny sydd angen cefnogaeth benodol yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol

Cynnydd 2023-2024:

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn dal i gael ei chyflwyno ar draws ardaloedd difreintiedig CnPT, gyda bron 2,000 o blant cymwys yn cael mynediad at o leiaf un elfen o'r rhaglen bob blwyddyn. Gall plant sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg gael cymorth trwy elfen Estyn Allan y rhaglen, sy'n cynnwys cymorth estynedig gan Ymwelwyr Iechyd, gofal plant neu gymorth ar gyfer angen dysgu ychwanegol.

Cefnogir lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar plant trwy raglen Dechrau'n Deg sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac yn cyflwyno ymyriadau i rieni er mwyn paratoi teuluoedd â'r strategaethau angenrheidiol i gefnogi datblygiad iaith eu plentyn trwy ryngweithio beunyddiol. Cynigir hyfforddiant hefyd i alluogi lleoliadau gofal plant i wneud newidiadau amgylcheddol a sicrhau bod gan staff y blynyddoedd cynnar strategaethau i gefnogi a datblygu cyfathrebu gan blant yn eu hamgylchedd cyn ysgol.

Mae cymorth pontio effeithiol ar gael i'r holl blant a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan y timau Blynyddoedd Cynnar i blant, teuluoedd, lleoliadau gofal plant ac ysgolion er mwyn sicrhau pontio effeithiol i ofal plant ac addysg. Mae'r broses bontio i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei rheoli'n effeithiol gan yr awdurdod lleol, gyda ffocws clir ar fodloni anghenion datblygu'r plant.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd mewn angen, gan gynnwys teuluoedd y Lluedd Arfog, i leihau'r potensial i blant gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod

Cynnydd 2023-2024:

Mae Teulu CnPT (y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gynt) yn cefnogi teuluoedd trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau lleol i hyrwyddo cefnogaeth a chymorth cynnar. Darperir cymorth ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd trwy banel amlasiantaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth. Yn 2023-24, derbyniwyd 1,746 o atgyfeiriadau am gymorth ar gyfer 2,213 o blant a phobl ifanc.

Mae tîm Rhianta Plant a Theuluoedd Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu ystod eang o raglenni cymorth magu plant cyffredinol a phenodol ac yn cefnogi teuluoedd sydd wedi mynd trwy'r broses Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth. Bu'r tîm yn cefnogi bron 1200 o unigolion ar hyd 2023-24.

Dyfarnodd cynllun Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluedd Arfog Cymru statws aur i Ysgol Gynradd Baglan a statws efydd i Ysgol Cwm Brombil, i gydnabod y gefnogaeth a ddarperir i blant o deuluoedd y lluedd arfog trwy wreiddio arfer da yng ngwaith beunyddiol yr ysgol a chreu amgylchedd cadarnhaol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi a darparu mynediad at brofiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar ôl cyrraedd 16 oed

Cynnydd 2023-2024:

Yn y flwyddyn 2022/2023 roedd y ganran o ymadawyr blwyddyn 11 a oedd yn NEET yn 2.41%, ac ar ddiwedd 2023-2024 roedd y ffigur hwn wedi lleihau i 1.3%.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i ganfod y plant hynny sydd angen cefnogaeth anacademaidd estynedig i'w helpu i gyflawni eu potensial o ganlyniad i effaith COVID-19

Cynnydd 2023-2024:

Mae Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth i bobl ifanc agored i niwed gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Yn 2023-2024, gwelwyd gwelliant yn llesiant emosiynol 85.8% o bobl ifanc, gyda 72.6% o bobl ifanc yn dweud bod eu gwydnwch wedi gwella

Cam Gweithredu: Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob disgybl, yn arbennig y rhai o deuluoedd incwm isel a'r rhai lle mae COVID-19 wedi cael effaith benodol, yn gallu cael mynediad at ddyfeisiau digidol priodol

Cynnydd 2023-2024:

Mae dysgu oedolion wedi rhoi benthyg dyfeisiau digidol i ddysgwyr ar gyfer dysgu hybrid, ochr yn ochr â chymorth 1:1 gyda sgiliau digidol lle bo angen. Mae'r dyfeisiau presennol sydd ar fenthyg fel a ganlyn: Gliniaduron a ddefnyddir mewn sesiynau – 20; Trefniadau benthyg hirdymor – 6; Defnydd ar gyfer arholiadau – 5

Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i weithio gyda disgyblion, rhieni/gofalwyr ac ysgolion i leihau nifer yr achosion o absenoldeb a'r gwaharddiadau yn ein holl ysgolion

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n dal i gefnogi ysgolion i wella lefelau presenoldeb disgyblion ar draws y grwpiau oed cynradd ac uwchradd.

- Mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion cynradd yn 2023-24 wedi codi 1.17% i 90.97%.
- Mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd yn 2023-24 wedi codi 1.63% i 87.61%.

Cafodd 37 o ddisgyblion eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod 2023-24 o gymharu â 47 yn y flwyddyn flaenorol.

Cam Gweithredu: Byddwn yn casglu data o ysgolion ac yn cefnogi ysgolion i ymdrin â bwlio ac aflonyddu yn eu holl ffurfiau, ac yn gweithio gyda nhw i roi sylw i dueddiadau/faterion

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n dal i gefnogi ein hysgolion gyda'r meysydd gweithgaredd hyn, ac mae ymdrechion yn parhau i gipio data er mwyn datblygu dulliau cadarn o ddarparu adroddiadau ac adnabod patrymau a thueddiadau wrth symud ymlaen. Darperir gweithdai a sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i ysgolion a digwyddiadau sy'n ymwneud â chefnogi a rheoli bwlio mewn ysgolion.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi disgyblion sy'n dioddef bwlio, ac yn gweithio gyda'r rhai sy'n bwlio eraill

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n dal i gefnogi ein hysgolion yn y meysydd gweithgaredd hyn, ac mae ymdrechion yn parhau i gipio data er mwyn datblygu dulliau cadarn o ddarparu adroddiadau wrth symud ymlaen.

Mae pobl ifanc a fu'n ymwneud â digwyddiadau bwlio, boed yn bwlio eraill neu'n cael eu bwlio, yn cael lefelau gwahanol o gymorth gan ysgolion a Gweithwyr Ymgysylltu â leuenctid Cynnydd sydd wedi'u gosod mewn ysgolion uwchradd. Gall y cymorth fod ar ffurf lles a llesiant, cyngor a meithrin neu ymwneud â chyfiawnder adferol. Cynigir hyfforddiant ar y dull adferol i'r holl ysgolion, ac mae nifer o ysgolion wedi derbyn yr hyfforddiant ac yn ei ddefnyddio i gefnogi digwyddiadau bwlio posibl. Mae nifer cynyddol o ysgolion wedi sefydlu systemau bydis a mentoriaid sy'n gyfoedion er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc eraill.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i weithio gyda rhieni/gofalwyr plant cyn ysgol i sicrhau eu bod yn barod i fynd i'r ysgol.

Cynnydd 2023-2024:

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau i gael ei chyflwyno ar draws ardaloedd difreintiedig CnPT, gyda bron 2,000 o blant cymwys yn cael mynediad at o leiaf un elfen o'r rhaglen bob blwyddyn.

Mae rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn fodd i'r awdurdod lleol gyflwyno ystod eang o gymorth magu plant er mwyn helpu rhieni i ddarparu ar gyfer datblygiad eu plant a'u paratoi i ddysgu.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal plant i ddarparu gofal plant rhan amser o safon uchel wedi'i ariannu gan Dechrau'n Deg i blant dwy oed. Yn ystod 2023-24, dechreuwyd cyflwyno cynllun y Blynyddoedd Cynnar i ehangu gofal plant wedi'i ariannu i blant dwy oed. Diben y fenter hon yw galluogi mwy o blant dwy oed i gael mynediad i ofal plant rhan amser wedi'i ariannu gan Dechrau'n Deg.

Yn ystod 2023-24, cafodd 1129 o blant fynediad i ofal plant wedi'i ariannu gan Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynnwys 322 o blant oedd yn gymwys i dderbyn gofal plant trwy raglen ehangu Dechrau'n Deg. Yn ystod 2023-24, cafodd 1463 o blant tair a phedair oed fynediad at ofal plant rhan-amser wedi'i ariannu trwy'r Cynnig Gofal Plant.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc 'yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol, a'u bod yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol'.

Cynnydd 2023-2024:

Mae pob ysgol wedi cael hyfforddiant a gwybodaeth am gyflwyno elfennau gorfodol y cwricwlwm ac mae nifer o ysgolion wedi datblygu eu hadnoddau eu hunain.

Cam Gweithredu: Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod addysgu'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu natur aml-ethnig Cymru

Cynnydd 2023-2024:

Mae ysgolion uwchradd yn parhau i gael cefnogaeth i gyflwyno cwricwlwm blaengar a datblygu eu hadnoddau eu hunain.

Iechyd a Llesiant

Hybu llesiant a iechyd meddwl da a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl

Blaenoriaeth 2.1 Bydd ein Staff yn cael eu cefnogi a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

Cam Gweithredu: Fel cyflogwr byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth

Cynnydd 2023-2024:

Ym mis Ionawr 2024, cyflwynwyd Rhaglen Cymorth i Gyflogeion sy'n cynnig mynediad at wasanaethau cwnsela cyfrinachol i holl gyflogeion y cyngor ynghyd â nifer o fuddion eraill a allai gynnwys cymorth iechyd a llesiant cyfannol, llwyfan gwobrau, ac ati. Ar hyn o bryd, mae 4.5% o gyflogeion y Cyngor yn defnyddio gwasanaethau'r Rhaglen hon, sef y defnydd cyfartalog ar gyfer rhaglen ym mlwyddyn gyntaf ei gweithrediad. Rhagwelir y bydd y nifer hwn yn cynyddu yn y dyfodol wrth i fwy o gyflogeion ddod i wybod amdani.

Cam Gweithredu: Fel cyflogwr byddwn ni'n diweddarw polisiau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn ymdrin â iechyd meddwl yn y gweithle

Cynnydd 2023-2024:

Yn 2023-24 adolygwyd a diweddarwyd y polisiau cyflogaeth canlynol, y bydd agweddau arnyn nhw yn cefnogi iechyd meddwl yn y gweithle:

- Y Fframwaith Gweithio Hybrid
- Gweithio Hyblyg
- Polisi Gofalwyr
- Llwyfan Cyflogwyr i Ofalwyr
- Pasbort Anabledd y TUC
- Strategaeth Llesiant Ariannol
- Llwyfan Cyllid trwy Gyflog
- Cynllun Cymorth i Gyflogeion
- Yr Adduned Menopos

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n darparu gwybodaeth i gyflogeion ynghylch iechyd meddwl ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth

Cynnydd 2023-2024:

Darparwyd modiwlau rheoli straen trwy'r llwyfan e-Ddysgu. Mae'r modiwl cyntaf yn canolbwyntio ar reoli straen yr unigolyn ac yn awgrymu ymarferion ymlacio. Mae'n edrych hefyd ar syniadau ffordd o fyw i helpu i leihau straen. Mae'r ail fideo yn seiliedig ar Hunan-ofal, ac mae'n edrych ar sut gall staff ymarfer gofalu amdanynt eu hunain a bod yn gadarnhaol o ran eu hagwedd a'r ffordd maen nhw'n trin eu hunain. Mae trydydd fideo, sy'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o weithio gartref, yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd, a disgwylir ei ryddhau yn fuan. Yn 2023-2024, cwblhaodd 220 o'n staff hyfforddiant cysylltiedig â straen.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i weithredu ein Cynllun Gweithredu Adduned Cyflogwr Amser i Newid Cymru (TTCW)

Cynnydd 2023-2024:

Mewn partneriaeth ag Amser i Newid Cymru, rydyn ni'n dal i ddatblygu a chyflwyno gweithredoedd seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle. Rydyn ni'n falch o gael bod mewn partneriaeth â TTCW ers 2019.

Yn 2023 - 24 recriwtiwyd a hyfforddwyd 33 Hyrwyddwr Iechyd Meddwl ar draws y gweithlu. Y bobl hyn, sydd â diddordeb mewn problemau iechyd meddwl neu brofiad ohonynt, sydd wrth wraidd ymgyrch TTCW i herio'r stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl. Maen nhw'n rhannu eu stori gyda'u cydweithwyr ac yn helpu i'w cyfeirio at ffynonellau cymorth a chefnogaeth. Eleni, cynhyrchodd dau o'n hyrwyddwyr ffilmiau yn darlunio'u stori er mwyn helpu cydweithwyr.

Cam Gweithredu: Byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i staff er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl

Cynnydd 2023-2024:

Yn ogystal â'r camau uchod, rydyn ni'n darparu Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, fel rhan o'r hyfforddiant craidd a gynigir.

Blaenoriaeth 2.2 Bydd ein Plant a'n pobl ifanc yn gallu cyrchu cymorth priodol

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n aildylunio ein systemau ar gyfer cymorth Emosiynol, Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cynnig mynediad integredig symlach i wasanaethau

Cynnydd 2023-2024:

Sefydlwyd ffrwd waith ranbarthol ar gyfer Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc sy'n cynnwys cynrychiolaeth o addysg, iechyd, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwirfoddol. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac yn rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar ddatblygu pwynt mynediad sengl ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau mynediad symlach i wasanaethau.

Blaenoriaeth 2.3 Bydd ein Cymunedau sydd angen cefnogaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am iechyd meddwl ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth o'n gwefan

Cynnydd 2023-2024:

Mae gwefan CnPT yn cynnwys nifer o adnoddau a gwasanaethau cyfeirio a ddarperir gan wahanol sefydliadau, lle gall unigolion gyrchu cymorth iechyd meddwl. Derbyniodd y rhan hon o'r wefan gyfanswm o 220 o drawiadau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n anrhydeddu ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan sicrhau nad yw unrhyw gyn-filwyr, nac aelod o deulu personél sydd yn y lluoedd neu gyn-filwr, yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd y gwaith hwnnw wrth gyrchu cymorth a gwasanaethau iechyd a llesiant

Cynnydd 2023-2024:

Cafodd Gŵyl Lluoedd Arfog y Maer ei chynnal wyneb yn wyneb am y pedwerydd tro ym mis Hydref a mis Tachwedd 2023 (roedd digwyddiadau 2020 a 2021 yn rhai rhithwir oherwydd y pandemig). Un o nodau'r digwyddiad yw cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Cyfamod.

Yn ogystal, cynhaliwyd diwrnod gwybodaeth fel rhan o'r digwyddiad gyda 14 stondin wybodaeth (nifer mwy na'r 6 stondin yn 2022), gan gynnwys sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau cyfraddau hunanladdiad yn y fwrdeistref sirol

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r ALI, ynghyd ag asiantaethau partner, wedi datblygu fforwm ymateb cyflym er mwyn ymateb i achosion lle'r amheuir bod hunanladdiad, ymgeisiau sylweddol i gyflawni hunanladdiad a marwolaeth sydyn rhywun o dan 25 oed. Mae gwrywod wedi'u gorgynrychioli yn y data hwn, sef 61 gwryw o gymharu â 18 benyw. Gwrywod rhwng 28 oed a 40 oed yw'r grŵp sy'n wynebu'r perygl mwyaf, a'r grwpiau o fenywod sydd mewn perygl yw'r rhai rhwng 30 oed a 42 oed.

Rydym am weld y niferoedd hyn yn lleihau ond nid oes patrymau a thueddiadau amlwg na themâu o bwys. Yn dilyn achos lle'r amheuir bod hunanladdiad, mae'r fforwm ymateb cyflym bellach yn sicrhau bod asiantaethau ar draws y rhanbarth yn cynnig cymorth i'r teulu, ffrindiau a chymunedau ac nid oes tystiolaeth hyd yma fod pobl gysylltiedig eraill ar draws CnPT wedi mynd ymlaen i geisio neu gyflawni hunanladdiad.

Mae'r broses ymateb cyflym gyfredol yn cael ei gwerthuso ar draws y rhanbarth a bydd adroddiad yn cael ei rannu yn y flwyddyn newydd. Er nad oes patrymau, tueddiadau na themâu amlwg, mae'r data yn gyfyngedig, ac mae'r wybodaeth a gesglir, a sut gellid gwella'r data rhanbarthol trwy ddefnyddio system tracio data byw

Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac rydyn ni'n disgwyl cyfarfod ag academydd i edrych ar sut gallai darllen peirianyddol a deallusrwydd artiffisial ein helpu i ddeall y mater hwn yn well a lleihau nifer yr achosion yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i ymdrin ag effaith COVID-19 ar staff iechyd a gofal cymdeithasol

Cynnydd 2023-2024:

Mae Atal a Rheoli Heintiau yn dal i weithio'n agos gyda gofal cymdeithasol i oedolion i archwilio lleoliadau gofal a lleihau'r risg o ledaenu heintiau.

Mae'r tîm Comisiynu yn cael rhybudd bob tro y ceir nifer o achosion o haint mewn cartref a chymerir camau i leihau lledaeniad yr haint cymaint â phosibl.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio fel rhan o Wasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu (TTP) rhanbarthol y GIG i ymgysylltu â phob person, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn y rhaglen diogelu iechyd, a byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl bobl sydd angen cael mynediad at y gwasanaeth TTP yn gallu gwneud hynny, gan sicrhau bod mynediad ar gael i bawb

Cynnydd 2023-2024:

Terfynwyd gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu (TTP) y GIG ym Mehefin 2022.

Diogelwch Personol

Sicrhau bod pobl a chymunedau yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth

Blaenoriaeth 3.1 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

Cam Gweithredu: Byddwn yn cynyddu nifer yr adroddiadau am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghastell-nedd Port Talbot, trwy gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau

Cynnydd 2023-2024:

Mae Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi parhau i gyfarfod bob chwarter yn ystod 2023-24. Mae'r grŵp yn gyfrifol am yr holl waith cyfathrebu a chynyddu ymwybyddiaeth ynghylch cam-drin domestig yn ei holl ffurfiau. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn: ehangwyd aelodaeth y Grŵp rhanbarthol i gynnwys cynrychiolwyr o Llwybrau Newydd, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cefnogodd y grŵp ymgyrch flynyddol y Rhuban Gwyn sydd â'r nod o ddileu trais gwrywod yn erbyn menywod; hyrwyddwyd ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol gan gynnwys Cyfraith Clare, Bright Sky, a Respect.

Roedd y digwyddiadau diogelwch cymunedol misol a gynhaliwyd ledled Castell-nedd Port Talbot yn gyfleoedd rheolaidd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o VAWDASV a chyfeirio at wasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol. Canolbwyntiwyd ar sicrhau bod VAWDASV yn fater i bawb a chyflwyno sgysiau anodd ym mhob maes.

Cafodd ymgyrch ranbarthol 'Heads Up' ei hymestyn ymhellach ar draws y diwydiant trin gwallt a harddwch mewn partneriaeth ag Ymgyrch Prunella Heddlu De Cymru a Thîm Diogelwch Cymunedol CnPT. Nod yr ymgyrch yw gwella sgiliau staff o ran adnabod cam-drin domestig a rhoi'r hyder iddynt ddelio â sgysiau sensitif. Dosbarthwyd pecynnau gwybodaeth i hyrwyddo llinellau cymorth Byw Heb Ofn a Respect ynghyd â darparwyr gwasanaethau lleol. Mae'r ymgyrch Mannau Diogel yn dal i gael ei hestyn yng Nghanol Trefi Castell-nedd a Phort Talbot yn ogystal â phob canolfan ddinesig a'r llyfrgelloedd.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a iach, a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir

Cynnydd 2023-2024:

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, derbyniodd 1501 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o 52 o ysgolion cynradd weithdy Perthnasoedd Iach yn ystod digwyddiad blynyddol y Criw Croch. Bu modd i Stori gyflwyno addysg Perthnasoedd Iach i 790 o ddisgyblion ar draws CnPT a chynnwys 50 o athrawon yn y sesiynau. Cyflwynodd Hyfforddiant Camau addysg Perthnasoedd Iach i 1425 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd. Mae nifer o ysgolion wedi cysylltu â Hyfforddiant Camau i ofyn am gyflwyno gwers bellach ar faterion nad ydynt yn cael sylw ar hyn o bryd, gan gynnwys: cydsyniad mewn perthnasoedd, aflonyddu rhywiol, deinameg teuluoedd a chasineb at fenywod. Cynhaliwyd arolwg gydag arweinwyr Diogelu i asesu'r angen am ehangu'r cynnwys. Mae Hyfforddiant Camau wedi cyflwyno sesiynau i goleg CnPT i ddarparu gwybodaeth am wrywdod cadarnhaol a chydsyniad.

Cefnogodd Calan DVS 29 o blant a phobl ifanc trwy ei wasanaeth lloches, 92 o blant a phobl ifanc trwy Brosiect Ar Trac, 14 o blant trwy'r Prosiect Tynnu Lluniau a Siarad, a dywedodd 100% o'r bobl ifanc hyn eu bod yn teimlo iddynt gael eu clywed a chael gwrandawriad. Cynhaliodd Tîm Ar Trac Calan 5 ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ar draws ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn helpu i lywio arferion y sefydliad, amlygu unrhyw fylchau mewn gwasanaethau a datblygu modelau i lenwi'r bylchau.

Cam Gweithredu: Darparu mynediad cyfartal i bob dioddefydd i wasanaethau rhywedd ymatebol, o safon uchel, sy'n derbyn adnoddau priodol, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n seiliedig ar gryfder ar draws Castell-nedd Port Talbot

Cynnydd 2023-2024:

Yn ystod 2023-24, parhawyd â'r ymarfer Comisiynu sy'n edrych ar addasrwydd y ddarpariaeth llety mewn argyfwng i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'n allweddol bwysig bod gennym ddarpariaeth sy'n addas at y diben sy'n gallu bodloni anghenion pob dioddefwr a all fod mewn angen. Mae'r ddarpariaeth cymorth lle bo'r angen bresennol yn amrywiol, gydag ystod o raglenni i ddioddefwyr, cymorth i blant a phobl ifanc, a rhaglenni ar gyfer camdrinwyr.

Blaenoriaeth 3.2 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gydag aelodau o grwpiau cydraddoldeb lleol, partneriaid a'n cymunedau i annog riportio digwyddiadau/troseddau casineb a sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth sy'n addas at y diben

Cynnydd 2023-2024:

Yn ystod 2023-24, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol, y Tîm Cydlyniant Rhanbarthol, Cymdeithas y Gymuned BME a phartneriaid wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ystyr troseddau casineb a sut i'w riportio, ynghyd â pha gymorth sydd ar gael.

Trefnwyd digwyddiadau yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a chynhaliwyd digwyddiadau cydlyniant cymunedol cadarnhaol hefyd i ddathlu Mis Hanes Pobl Ddu a Windrush. Cefnogwyd Balchder CnPT hefyd, a datblygwyd Clybiau Brecinio LHDT, ynghyd â rhwydwaith cymorth i gyflogaion.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cefnogi defnydd o Gerdyn Mynediad Cymdeithas y Gymuned BME (i helpu i oresgyn rhwystrau ieithyddol wrth gyrchu gwasanaeth)

Cynnydd 2023-2024:

Nid yw'r cam gweithredu hwn yn cael ei ystyried yn berthnasol bellach, ac o ganlyniad mae wedi'i ddileu.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cefnogi Cymdeithas y Gymuned BME i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes yn yr ymarferiad Proffilio Cymunedol, yn ogystal ag estyn ei gwmpas

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn dal i neilltuo 2 ddiwrnod yr wythnos o amser y Swyddog Cydlyniant Cymunedol i gefnogi Cymdeithas y Gymuned BME gyda'i gwaith o ddydd i ddydd, cynllunio digwyddiadau, a'i chyfarfod cyffredinol blynyddol. Mae'r bartneriaeth hon wedi ennill ei phlwyf bellach ac mae'n cryfhau ein dull o weithio gyda'r cymunedau a chefnogi ein grwpiau lleiafrifol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adborth o'r Arolwg Cydlyniant Cymunedol

Cynnydd 2023-2024:

Mae Cymdeithas y Gymuned BME yn adolygu ei rhaglen waith barhaus. Bydd yr holl gamau gweithredu yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn llywio Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME er mwyn deall ymhellach brofiadau bywyd aelodau o'n cymunedau BAME, yn arbennig yng nghyswllt eu profiadau o ddigwyddiadau / droseddau casineb

Cynnydd 2023-2024:

Dyfarwyd cyfanswm o £24,500 o gyllid trydydd sector i Gymdeithas y Gymuned BME yn 2023-2024.

Yn ystod 2023-24, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol, y Tîm Cydlyniant Rhanbarthol, Cymdeithas y Gymuned BME a phartneriaid wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o ystyr troseddau casineb a sut i'w riportio. Gydag ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol, a chefnogaeth barhaus i sesiynau megis *Chai and Chat*, rydyn ni'n parhau i archwilio profiadau dioddefwyr troseddau casineb, er mwyn helpu i lywio ein hymgyrchoedd ymhellach a dylanwadu ar ffurf ein gwasanaethau er mwyn cynnig ymateb gwell.

Cyflogaeth

Sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned yn well, bod ein polisiau'n deg, a bod y bwlbh cyflog rhwng y rhywiau'n lleihau

Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisiau

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n sicrhau proses recriwtio a dethol deg a thryloyw sy'n annog cronfa ehangach o ddoniau ac yn hwyluso cydbwysedd mwy cyfartal o ran rhywedd

Cynnydd 2023-2024:

Mae cyflwyno modiwl recriwtio iTrent yn golygu bod modd bellach i'r cyngor gynnig cyfle i reolwyr recriwtio fabwysiadu'r defnydd o ffurflenni cais dienw wrth lunio rhestr fer yn ystod y broses benodi. Dilëir enw'r ymgeisydd o'r ffurflen gais, cyn ei rhoi i'r rheolwr recriwtio ar gyfer llunio'r rhestr fer, er mwyn lleihau gogwydd wrth wneud penderfyniadau a gwneud ein harferion recriwtio yn fwy cynhwysol.

Mae gwaith ymchwil gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o symud ymlaen trwy'r broses recriwtio pan gaiff eu rhywedd ei guddio yn y broses ymgeisio. Nid yw'r dystiolaeth mor eglur yn achos ymgeiswyr ethnig leiafrifol.

Mae Pwyllgor Penodiadau Arbennig y Cyngor wedi ymrwmo i ddefnyddio ffurflenni cais dienw wrth benodi Prif Swyddogion. Cynhelir gwaith monitro i bennu effaith hynny ar y broses benodi a chynwysoldeb.

Cam Gweithredu: Byddwn yn hyrwyddo, yn hwyluso, yn dadansoddi ac yn monitro hyblygrwydd yn y gweithle ar bob lefel, er mwyn galluogi menywod i wneud cynnydd ac i sicrhau cydnawsedd â gweithlu sy'n pontio'r cenedlaethau

Cynnydd 2023-2024:

- Cyflwynwyd camau gweithredu i gefnogi cynnydd menywod yn ein gweithleoedd trwy ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd a ddatblygwyd yn wreiddiol mewn partneriaeth â Chwarae Teg trwy'r Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg.

Gweithgareddau allweddol yn 2023 - 2024:

- Dyfarnwyd 'Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg Womenspire' i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gydnabod ein cyflawniadau ym maes cydraddoldeb rhywedd yn y gweithle
- Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (8 Mawrth) gyda siaradwyr gwadd o Chwarae Teg, yng nghwmni'r Prif Weithredwr a gweithwyr ar draws y Cyngor.
- Defnyddiwyd sianeli cyfathrebu i roi cyhoeddusrwydd eto i bolisïau a dewisiadau gweithio hyblyg er mwyn sicrhau bod ein holl gyflogeion (yn ddynion a menywod) yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael
- Mae Cynllun Gweithredu'r Menopos a'r Adduned Menopos yn cefnogi cyflogeion ac yn dangos cefnogaeth iddynt trwy sianeli cyfathrebu a gweithgareddau (gweler yr adborth uchod). Enillwyd Gwobr Arloesi yng Ngwobrau Cydnabod Cyflogeion 2023 am y gwaith hwn.
- Lansiodd cynllun mentora Ment2Be CnPT a ddatblygwyd i helpu menywod ar gyflogau isel i gael cyngor a chyfarwyddyd i'w helpu i ddatblygu a symud ymlaen yn eu gyrfa:
 - derbyniodd 10 mentor ar draws y cyngor hyfforddiant gan Chwarae Teg i ffurfio Rhwydwaith Mentora Ment2Be CnPT

- mae 11 o gyflogeion yn cael eu mentora gan ein rhwydwaith mentora ar hyn o bryd.
- mae 5 cyflogai ar restr aros am fentora; bydd eu sesiynau mentora yn gallu dechrau cyn gynted ag y bydd lle gan ein mentoriaid

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n casglu ac yn monitro data ar lefel ddyfnach mewn perthynas â gweithio hyblyg

Cynnydd 2023-2024:

Ar hyn o bryd, dim ond ceisiadau llwyddiannus am Weithio Hyblyg sy'n cael eu dychwelyd i'r Tîm Adnoddau Dynol. Er mwyn cael gwybod a yw ceisiadau'n cael eu gwrthod, rydyn ni'n newid ein proses fel bod yr holl Ffurflenni Cais am Weithio Hyblyg a lenwir yn ein cyrraedd a byddwn ni'n monitro'r rhain er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n Polisi Gweithio Hyblyg.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n craffu ar y nifer sy'n manteisio ar Absenoldeb Rhieni a Rennir er mwyn monitro cydbwysedd rhywedd ac annog mwy i fanteisio ar hynny ar draws y rhywiau

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n adrodd yn flynyddol ar nifer y cyflogeion sy'n cymryd Absenoldeb Rhieni a Rennir. Ym mlwyddyn 2023-24, cymerodd pum cyflogai Absenoldeb Rhieni a Rennir.

Cam Gweithredu: Yn ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog, byddwn ni'n cynnwys cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer aelodau o'r Lluoedd Arfog a ryddhawyd yn ddiweddar.

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ar waith. Byddwn yn dechrau casglu data mewn perthynas â hynny yn 2024 - 25 er mwyn gallu cynnal gwaith monitro.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n ystyried sut mae ein polisiau a'n harferion yn effeithio ar staff sydd wedi'u cyflogi ar gontractau achlysurol a thros dro, a chontractau rhan amser.

Cynnydd 2023-2024:

Mae gennym Siarter ar gyfer cyflogeion Achlysurol, Dros Dro a Chyfnod Penodol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Personél ym mis Ebrill 2019. Datblygwyd hyn er mwyn sicrhau nad oedd y cyflogeion hyn yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Wrth symud ymlaen, byddwn ni'n cynnal arolwg o'r cyflogeion hyn ac yn trefnu grwpiau ffocws er mwyn casglu adborth ansoddol.

Cam Gweithredu: Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth BAME, gan ddatblygu set o gamau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r nod o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith gweithlu'r Cyngor

Cynnydd 2023-2024:

Yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth, ein nod yw dileu rhwystrau i gyflogaeth a hybu cyfleoedd dyrchafiad i Gyflogeion BME, a chyflawnwyd hynny trwy dreialu ffurflenni cais dienw ac ychwanegu Datganiad Gwrth-hiliaeth clir at ein gwefan Swyddi. Ychwanegwyd gwybodaeth am y Rhwydwaith Cyflogeion a'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth at ein sesiynau Croeso Corfforaethol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gyda staff i bennu'r awydd i ffurfio Fforwm Cyflogeion BAME er mwyn helpu i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed

Cynnydd 2023-2024:

Sefydlwyd y Fforwm Cyflogeion Ethnig gyda chymorth Aelod Du Cenedlaethol UNSAIN Cymru, a gafodd secondiad rhan-amser i'n helpu i sefydlu a rhedeg y rhwydwaith. Derbyniodd y rhwydwaith gymorth dwys i ddechrau gan Reolwr Adnoddau Dynol, ac mae hyn yn lleihau yn raddol wrth i'r rhwydwaith fagu hyder. Mae gan y Rhwydwaith 20 aelod ar hyn o bryd ac mae'n cyfarfod bob 2-3 mis. Mae'r rhwydwaith wedi penodi cadeirydd mewnol ac mae'n gallu rheoli'r cyfarfodydd a'r agenda heb gymorth bellach.

Ymgynghorir â'r rhwydwaith ar ddatblygiadau pwysig o ran y polisi cyflogeion, fel rhanddeiliad allweddol, ac mae'n ein helpu i ddatblygu polisi mewn ffordd sy'n cefnogi cyflogeion ethnig lleiafrifol.

Cefnogodd y Rhwydwaith Ddiwrnod Recriwtio BME ym Mhort Talbot ym mis Chwefror 2023 mewn partneriaeth â Chymdeithas Cymuned BME CnPT. Roedd nifer da yn bresennol a chafwyd sylwadau cadarnhaol. Mae trafodaethau ar waith rhwng Adnoddau Dynol a chynrychiolwyr y Rhwydwaith i gynnal digwyddiad tebyg yng Nghastell-nedd tuag at ddiwedd gwanwyn 2024

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio i wella ein Diwylliant Corfforaethol, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu

Cynnydd 2023-2024:

Yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth, ein nod yw dileu rhwystrau i gyflogaeth a hybu cyfleoedd dyrchafiad i Gyflogeion BME, a chyflawnwyd hynny trwy dreialu ffurflenni cais dienw ac ychwanegu Datganiad Gwrth-hiliaeth clir at ein gwefan Swyddi. Ychwanegwyd gwybodaeth am y Rhwydwaith Cyflogeion a'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth at ein sesiynau Croeso Corfforaethol.

Mae nifer yr ymgeiswyr BME am swyddi gyda'r Cyngor wedi cynyddu'n gyson eleni:-

- 2021 - 2022 = 286 ymgeisydd
- 2022 - 2023 = 447 ymgeisydd

Nifer yr ymgeiswyr a gyrhaeddodd y rhestr fer:

- 2021- 2022 = 38 (13%)
- 2022- 2023 = 97 (21%)

Nifer yr ymgeiswyr BME a benodwyd:

- 2021 - 2022 = 9 (3%)
- 2022 - 2023 = 23 (5%)

Mae'r Cyngor wedi arwyddo Siarter Gwrth-hiliaeth Unsain. Wrth ei harwyddo, mae'r Cyngor yn addunedu i gyflwyno'r ymrwymadau a amlinellir yn y Siarter cyn pen 12 mis. Drwy wneud hynny, byddwn yn dangos ein hymrwymiad i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau ar sail hil ym meysydd recriwtio, dyrchafu, cyfleoedd hyfforddiant, gweithdrefnau cysylltiadau cyflogaeth megis disgyblu, a chyflogau. Mae cyfatebiaeth rhwng y siarter a'r uchelgais yn ein Strategaeth Dyfodol Gwaith i fod yn Gyngor Gwrth-hiliol balch

Cam Gweithredu: Byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs) i'w helpu i gaffael profiad a sgiliau er mwyn symud i fyd cyflogaeth

Cynnydd 2023-2024:

Mae nifer y prentisiaid yn dal i gynyddu, gyda 185 Prentis yn dilyn rhaglenni ar hyn o bryd. Crëwyd 75 lleoliad Prentisiaeth newydd yn 2023-24 gyda 13 yn sicrhau cymhwyster.

Bydd rhaglen a gyllidir trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) yn cynyddu nifer y prentisiaethau eto yn 2024 - 2025

Cam Gweithredu: Byddwn yn edrych eto ar hyfforddiant staff ynghylch cydraddoldeb, ac yn benodol ar ddealltwriaeth pobl o anabledd, gan gynnwys anabledd nad yw'n weladwy

Cynnydd 2023-2024:

Datblygwyd fersiwn ddrafft gynhwysfawr o'r Rhaglen Hyfforddiant Cydraddoldeb yn 2023 - 24. Mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen wedi'i atal hyd nes y gweithredir y Platform Rheoli Hyfforddiant Corfforaethol newydd, Thinqi.

Blaenoriaeth 4.2 Bod ein Bylchau Cyflog rhwng y Rhywiau yn lleihau

Cam Gweithredu: Byddwn yn rhoi Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Rhywedd y Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ar waith.

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r cynllun gweithredu Amrywiaeth Rhywedd wedi'i roi ar waith ac mae ymdrechion yn parhau trwy'r partneriaethau i ddileu rhwystrau yn y gweithle ar gyfer yr pob cyflogai.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n rhoi sylw i'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor trwy roi Cynllun Gweithredu Cyflogwyr Chwarae Teg ar waith

Cynnydd 2023-2024:

Er bod y bwllch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau trwy ein partneriaeth â Chwarae Teg, mae'r nod o leihau'r bwllch ymhellach a'i gau yn parhau.

Cyfranogiad

Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, a bod pobl a chymunedau yn gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n sicrhau bod y gwasanaethau niferus sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog yn hygyrch ar-lein, ond hefyd dros y ffôn trwy Borth y Cyn-filwyr.

Cynnydd 2023-2024:

Mae Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn parhau i gefnogi cymuned y lluoedd arfog, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau sydd ar gael yn benodol ar gyfer aelodau o'r gymuned honno yn hygyrch i bawb, boed ar-lein neu trwy Borth y Cyn-filwyr.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu i leihau'r arwahanrwydd a'r unigrwydd a deimlir gan lawer pan fyddant yn gadael y gwasanaethau, neu gan aelod o'r teulu pan fydd yr un sy'n gwasanaethu yn cael ei anfon ar wasanaeth gweithredol neu hyfforddiant

Cynnydd 2023-2024:

Mae Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yn CnPT, gan gynnwys clwb Bocsio a Gweithgareddau Cymunedol Bulldogs a Hwb Cyn-filwyr Reorg.

Yn 2023-24, dyfarnwyd £10,000 i glwb Bocsio a Gweithgareddau Cymunedol Bulldogs o dan Gynllun Grantiau Trydydd Sector y cyngor. Mae'r clwb yn gweithio ochr yn ochr â nifer o Sefydliadau sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog i helpu aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys Mentoriaid Cymorth penodedig ar gyfer y Lluoedd Arfog, mynediad am ddim i ddosbarthiadau'r gampfa, digwyddiadau cymdeithasol, cymorth un i un a chyfeirio ymlaen i gefnogi partneriaid.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Diogelu i atal Seiberdroseddu ac amddiffyn pobl rhag cael eu hecsbloetio

Cynnydd 2023-2024:

Mae Seiberdroseddu yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Tasg Diogelwch Cymunedol – cawn ddiweddariadau rheolaidd ar unrhyw sgamiau seiberdroseddu neu faterion tebyg, i'n helpu i ddatblygu gwaith cynyddu ymwybyddiaeth priodol, hyfforddiant neu ymgyrchoedd. Caiff materion sy'n peri pryder eu huwchgwyfeirio i'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol os bydd angen gwaith pellach.

Parhawyd â'r gwaith mewn ysgolion trwy Raglen Schoolbeat yr Heddlu i addysgu pobl ifanc am ddiogelwch ar-lein.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n adolygu ac yn diweddarau ein gwefan yn barhaus, er mwyn gwella ei hygyrchedd

Cynnydd 2023-2024:

Mae rheoliadau hygyrchedd newydd y sector cyhoeddus yn golygu bod rhaid i bob gwefan sector cyhoeddus fodloni'r 'safon AA'. Mae ein gwefan yn bodloni'r safon AA hon. Mae'r safon AA yn rhan o'r Canllawiau ynghylch Hygyrchedd Cynnwys Gwe a gydnabyddir yn rhyngwladol (a elwir yn WCAG 2.1) sy'n pennu argymhellion ar gyfer gwella hygyrchedd y we.

Caiff ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod ein gwefan yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd y safon 'AA' neu'n rhagori arnyn nhw, ei amlygu fel arfer gorau ac mae gwefan y cyngor ymhlith yr 20 o wefannau cyngor mwyaf hygyrch ar draws y Deyrnas Unedig.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio i roi sylw i'r rhwystrau mae pobl a sefydliadau yn eu hwynebu i gyfranogi ar-lein

Cynnydd 2023-2024:

Allgáu Digidol – Mae cais llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi galluogi prosiect trawsadrannol i fynd i'r afael ag allgáu digidol ymhlith grwpiau agored i niwed. Nod prosiect Cynhwysiad Digidol a Galluogi Digidol CnPT yw ceisio gwella bywydau unigolion trwy eu helpu i gadw mewn cysylltiad, rheoli eu gweithgareddau beunyddiol, bod yn fwy annibynnol ac ymgysylltu mwy. Mae'r prosiect yn datblygu ac yn ehangu gwaith presennol i leihau anghydraddoldeb digidol ymhlith grwpiau dan anfantais, gan gynyddu mynediad at dechnoleg ddigidol sy'n gwella bywyd pob dydd/heneiddio'n dda, a chefnogi dinasyddion sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol i gyrchu'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen.

Mae'r dull gweithredu amlweddog yn cynnwys:

- Rhwydwaith o staff a gwirfoddolwyr Cynhwysiad/Galluogi Digidol sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion, gan gynnwys pobl ag anghenion mynediad neu anghenion dysgu ychwanegol.
- Galluogi mynediad fforddiadwy/di-dâl trwy Gynllun Llyfrgell a Banc Data Benthyc Cyfarpar.
- Cyflwyno cyrsiau rhyngweithiol sy'n cefnogi sgiliau digidol a sgiliau bywyd â chymhwyster er mwyn gwella rhagolygon myfyrwyr blwyddyn 11 a dargedir mewn ysgolion

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio i ganfod y cyfleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddinasyddion wella'u sgiliau a'u dealltwriaeth digidol

Cynnydd 2023-2024:

Cynhwysiad Digidol: Rydyn ni'n teithio i leoliadau ar hyd a lled CnPT. Rydyn ni'n cynnal 13 sesiwn Cynhwysiad Digidol ar sail galw heibio ar draws bwrdeistref CnPT gyfan. Mae Swyddogion Cynhwysiad Digidol anffurfiol, croesawgar yn cynnig sesiynau Cynhwysiad Digidol wyneb yn wyneb. Helpu i leihau rhwystrau a achosir gan drafnidiaeth gyfyngedig. Rydyn ni hefyd yn cynnig cymorth gyda Dyfeisiau/Chitiau Digidol sy'n gallu bod yn rhwystr.

Mae'n allweddol bwysig i ni ein bod yn mynd i'r afael â rhwystr allgáu digidol ac yn ei oresgyn. Dyma hanfod ein prif amcan. Rydyn ni'n gweithio gyda'n holl lyfrgelloedd lleol, grwpiau a chanolfannau cymunedol, ac yn sicrhau bod hyn yn rhan ganolog o'r drafodaeth wrth ddatblygu a chyflwyno ein gwasanaethau.

Rydyn ni'n gweithio gyda 'The Good Things Foundation' ac yn atgyfeirio/cyfeirio ymlaen at 'Fanciau Data' yn ein hardal leol (YMCA Castell-nedd a chanolfan Galluogi Digidol a Thechnoleg Gynorthwyol CnPT yn Hen Ysbyty Cimla) er mwyn goresgyn tlodi data, ac mae modd i bobl ar incwm isel/bobl anabl/bobl sy'n derbyn credydau pensiwn/bobl ddi-waith gael SIM am ddim sy'n darparu galwadau/negeseuon testun/40GB o ddata am 6 mis heb dalu'r un geiniog. Rydyn ni hefyd yn cyfeirio i'r gwasanaeth 'Band Eang Gwell' sy'n caniatáu i'r holl grwpiau demograffig uchod gael mynediad fforddiadwy i'r rhyngwyd yn eu cartrefi, ac mae modd cynnig gwybodaeth am gynlluniau grant cymorth ariannol a'u cyflwyno fel rhan o 'Fargen Ddinesig Bae Abertawe'

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gyda busnesau a sefydliadau lleol i archwilio trefniadau amgen wrth gyrchu gwasanaethau manwerthu i'r rhai sy'n cael trafferthion oherwydd mynediad digidol cyfyngedig ac ati.

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r Tîm Cynhwysiad Digidol yn parhau i gynnig cymorth i bobl sydd â mynediad digidol cyfyngedig. Cymerir camau gweithredu ymarferol pellach er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a gwasanaethau annigidol ar gael yn ein mannau cymunedol, trwy ddarparu sgysiau, sesiynau gwybodaeth ym mhob ardal, mewn canolfannau siopa, grwpiau eglwys, boreau coffi, Hybiau a mannau cynnes. Rydyn ni'n cysylltu â gwasanaethau ehangach y cyngor megis y tîm Iach a Diogel, Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth, uned Dwyll yr is-adran Safonau Masnach, yr heddlu lleol a'n Cydlynwyr Ardal Leol, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cymorth cofleidiol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r egwyddorion allweddol fel y'u cynhwysir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: gan gynnwys rhaglenni i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n sefyll mewn etholiadau, a chynhyrchu strategaeth cyfranogiad cyhoeddus

Cynnydd 2023-2024:

Mae gwaith wedi parhau i greu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau â rhanddeiliaid allanol allweddol er mwyn helpu i ymgysylltu â grwpiau sydd wedi tangofrestru, gan gynnwys pobl ifanc, myfyrwyr, pobl sy'n symud tŷ a theithwyr, gyda'r nod o gysylltu â gweithgareddau seiliedig ar etholiadau penodol lle bydd hynny'n bosib, cyn etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ym Mai 2024 ynghyd ag etholiad cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2024. Bydd pwyslais y gwaith yn newid dros y 12 mis nesaf er mwyn darparu gwybodaeth glir a chywir i bleidleiswyr am etholiadau'r Senedd ym Mai 2026, a fydd yn defnyddio system gynrychiolaeth gyfrannol am y tro cyntaf ochr yn ochr ag ehangu'r ffiniau etholaethol yn sylweddol.

Mabwysiadwyd Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y cyngor ym mis Ebrill 2023, ac ers hynny gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o'r camau yn y cynllun gweithredu yn ystod 2023-24.

Er enghraifft:

- Cynhaliwyd gwaith estyn allan cyffredinol gan ddefnyddio adnoddau democrataidd y Comisiwn Etholiadol i ymgysylltu â phobl ifanc, yn cynnwys gwell dealltwriaeth o bleidleisio a chofrestru pleidleiswyr 16-17 oed ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol.
- Lluniwyd Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc, gyda fersiwn addas i blant a phobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen ar gael. Datblygwyd hyfforddiant yn gysylltiedig â hyn a chyflawnwyd gwaith gyda'r holl dimau Addysg.

Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i gefnogi Gwobr y Siarter Ddigidol, y cawsom gydnabyddiaeth amdani yn ddiweddar

Cynnydd 2023-2024:

Cyflawnwyd y cynllun gweithredu hwn gan y Tîm Cynhwysiad Digidol sy'n cynnal sesiynau galw heibio cymunedol sy'n hygyrch i bawb ar draws y fwrdeistref

Buom yn gweithio i nodi rhwydweithiau a meithrin perthnasoedd da gyda'r staff/sefydliadau rydyn ni'n eu cyfarfod trwy ein gwaith Cynhwysiad Digidol ac rydyn ni'n parhau i ddarparu llwybrau dysgu achrededig trwy'r ddarpariaeth Cynhwysiad Digidol ac Addysg i Oedolion. Yn ogystal, cynigir rhaglen fewnol o hyfforddiant staff achrededig ar gyfer sefydliadau sydd am wella eu set o sgiliau digidol/TG.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n darparu gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg a/neu Saesneg

Cynnydd 2023-2024:

Cafodd y fersiwn ddiwygiedig o'i Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023-2028 ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2023. Mae'r strategaeth yn cyflwyno sut byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni'r themâu canlynol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyhoeddodd ein Gwasanaeth Plant a Theuluoedd dudalen gwe i gyfeirio rhieni at ddolenni defnyddiol ynghylch dysgu Cymraeg, gwella sgiliau iaith, magu plant yn ddwyieithog, neu gael gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg a dwyieithog yng Nghastell-nedd Port Talbot - <https://beta.npt.gov.uk/children-and-family-services/family-information-service/help-for-families/parenting/welsh-language/>

Mae'r rhan o wefan y cyngor sy'n ymwneud â'r Gymraeg www.npt.gov.uk/welsh yn cynnwys tudalen ynghylch dysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n sefydlu mecanwaith ymgysylltu, er enghraifft Panel Dinasyddion newydd, ac yn defnyddio ymatebion i sicrhau bod datblygiad gwasanaethau'r Cyngor a'r polisiau mae'n eu llunio yn cael ei lywio gan yr hyn sy'n bwysig i bobl

Cynnydd 2023-2024:

Dechreuwyd ymgyrch recriwtio er mwyn cynyddu aelodaeth Panel Dinasyddion CPT ym mis Hydref 2023. Erbyn diwedd Mawrth 2024, roedd 579 o aelodau.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gydag aelodau o'r gymuned Traws i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth

Cynnydd 2023-2024:

Ni sefydlwyd mecanweithiau priodol i weithio gyda'r gymuned Traws i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth. Bydd y rhwydwaith staff LHDTC+ ac asiantaethau partner yn hyrwyddo'r gwaith hwn yn 2024-2025.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n datblygu/cryfhau polisiau i ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio ac yn cefnogi ffurfio grŵp newydd i roi sylw i hynny

Cynnydd 2023-2024:

Ym Mai 2023, penodwyd swyddog Ymgysylltu Heneiddio'n Dda.

Yn ystod 2023-2024, mae'r swyddog wedi ymgysylltu ag oddeutu 200 o bobl hŷn ac mae'n ymweld ag oddeutu pymtheg grŵp yr wythnos

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gwella mynediad corfforol i'r cyfleusterau pwyllgor yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a Chanolfan Ddinesig Port Talbot

Cynnydd 2023-2024:

Cyflawnwyd gwaith ar lawr daear Canolfan Ddinesig Port Talbot i greu nifer o ystafelloedd cyfarfod hygyrch â chysylltedd digidol. Rhoddir ystyriaeth i'r siambr fel rhan o becyn ehangach o waith posibl yn ystod y 18 mis nesaf.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â grwpiau perthnasol i roi sylw i'n hanes a rennir ac archwilio ffyrdd o fynegi hynny'n well yn ein cymunedau

Cynnydd 2023-2024:

Yn 2023-2024, aed ati i ymgynghori ar y Strategaeth Diwylliant a'r Strategaeth Treftadaeth a'u rhoi ar waith.

Ym mis Ionawr 2024 rhoddwyd Buddsoddiad Astudiaethau Achos y Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau ar waith i adfywio cymuned Pontrhydyfen a'i galluogi i ddathlu ei threftadaeth yn 2025 a'r tu hwnt i hynny.

Safonau byw Gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

Blaenoriaeth 6.1 Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i leddfu tlodi

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r materion hynny sy'n codi i'r rhai ag incwm gwario isel iawn.

Cynnydd 2023-2024:

Sefydlwyd y tîm gwrth-dlodi ar 31 Gorffennaf 2023. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae Grŵp Llywio Partneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi BGC CnPT wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu, a hefyd yn ystyried atebion 'Adroddiad Tlodi CnPT 2020' Sefydliad Bevan, sy'n dal yn berthnasol mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.

Mae'r cynllun yn cael ei fireinio ar hyn o bryd, gyda Phartneriaid y Grŵp Llywio yn amlygu'r camau gweithredu y gallant ymrwymo iddyn nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir, ynghyd â sut gallai eu sefydliadau gyfrannu at y camau gweithredu trosfwaol ym mhob maes ffocws.

Codwyd y meysydd ffocws o waith Sefydliad Bevan a ddechreuodd cyn y pandemig, y mae Grŵp Llywio'r Partneriaeth wedi ymrwymo i ailedrych arnynt:

- Helpu Teuluoedd i Wneud yn Fawr o'u Harian
- Cefnogi Teuluoedd a Chymunedau
- Gwaith Teg a Chyflogaeth sy'n Tyfu
- Trafnidiaeth Well, Fwy Fforddiadwy

Yn y meysydd ffocws hyn, mae'r cynllun yn cynnwys camau megis:

- Ymyriadau wedi'u targedu i fwyafu incwm aelwydydd a lleihau costau byw
- Ymgyrchoedd cyfathrebu – cynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael
- Cydweithio – adeiladu ar waith partneriaeth a'i ddefnyddio'n effeithiol
- Eiriol a rhannu cipolygon

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cofleidio'r ddyletswydd sosio-economaidd newydd

Cynnydd 2023-2024:

Ymgorfforwyd ein dyletswyddau sosio-economaidd yn nhempeld yr Asesiad Effaith Integredig (AEI), a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi i swyddogion er mwyn ystyried pwysigrwydd yr AEI wrth wneud penderfyniadau.

Ym mis Tachwedd 2023, diweddarwyd offeryn asesu cam cyntaf yr AEI er mwyn cynnwys adrannau sosio-economaidd a bioamrywiaeth, yn ogystal ag adran ar wahân ynghylch tystiolaeth.

Ar yr un pryd, cryfhawyd yr adran fonitro yng nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig hefyd er mwyn sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer monitro'r effeithiau a nodwyd.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n sicrhau bod y teuluoedd hynny sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn cefnogaeth ar hyd gwyliau'r ysgol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r cynllun Bwyd a Hwyl sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd o nerth i nerth – gan ddyblu a mwy mewn blwyddyn, o 7 ysgol yn haf 2022 i gyfanswm o 15 ysgol yn haf 2023.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau lleol a busnesau lleol i archwilio sut mae cynnal mynediad at fwydydd diwylliannol priodol yn ystod cyfnodau o gyfyngu ar symudiadau/cyfnodau clo wrth symud ymlaen.

Cynnydd 2023-2024:

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus i'r Gwasanaeth Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar.

Blaenoriaeth 6.2 Bydd pobl yn elwa o raglenni a chefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosibl

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a pharhau i ddarparu ystod gynaliadwy o wasanaethau sy'n ymateb i'r galw, gan alluogi unigolion i aros gartref a chynnal eu hannibyniaeth cyhyd â phosibl, a derbyn cefnogaeth briodol ar adegau o angen

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda Phartneriaid Rhanbarthol i edrych ar gyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth. Rydyn ni wedi gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu nifer o gynlluniau byw â chymorth ac rydyn ni'n gweithio bellach ar gynnig ailalluogi. Defnyddir dull gweithredu rhanbarthol i bennu costau gwirioneddol gofal a chyflwyno taliadau chwyddo cyson.

Mae Prif Swyddogion y Gwasanaethau Oedolion yn mynychu cyfarfodydd a gweithdai rhanbarthol sy'n berthnasol i'w maes gwasanaeth ac yn symud ymlaen â'r ffrydiau gwaith amrywiol sy'n deillio o'r cyfarfodydd rhanbarthol.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n parhau i helpu pobl i ddysgu a rhyngweithio ag eraill, er mwyn iddyn nhw fedru bod yn rhan o'u cymunedau

Cynnydd 2023-2024:

Mae'r Tîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol a'r Tîm Cymorth Synhwyraidd yn dal i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol trwy ddarparu cymhorthion ac addasiadau.

Byddwn ni'n cyflwyno gwasanaeth ailalluogi preswyl yn y flwyddyn newydd i helpu pobl sy'n anhwylyd i gyrraedd eu potensial llawn.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n helpu i gefnogi pobl i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni wedi ymrwmo i feithrin cymunedau cynhwysol lle mae pawb, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, yn cael cyfle i ddysgu, rhyngweithio a ffynnu. I gyflawni hynny, rydyn ni'n parhau i gefnogi unigolion i ddatblygu eu sgiliau a chreu cysylltiadau ystyrlon yn eu cymunedau. Mae ein dull gweithredu'n cynnwys cyflwyno model cymorth fesul cam, a ddyluniwyd i helpu pobl i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Mae'r model hwn yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar wahanol adegau yn natblygiad yr unigolyn, gan sicrhau bod pawb yn cael cymorth ar y lefel gywir i gyflawni eu nodau. Drwy rymuso unigolion â sgiliau byw'n annibynnol ac ymgysylltu cymdeithasol, ein nod yw creu cymdeithas fwy cyfartal a chysylltiedig.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n ystyried parhau â'r cynllun Iach a Diogel er mwyn helpu i gefnogi aelodau bregus o'n cymunedau

Cynnydd 2023-2024:

Yn 2022, cynhaliwyd adolygiad o'r cynllun Iach a Diogel. Arweiniodd yr adolygiad at greu gwasanaeth cyfeillio gwirfoddol ar gyfer unigolion sy'n profi ynysu cronig, a rhaglen gymunedol ar gyfer oedolion agored i niwed. Mae ymdrechion ar waith ar hyn o bryd i adolygu'r llwybr i wirfoddolwyr er mwyn symleiddio cyfleoedd ar draws yr adrannau.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n gwella'r cyfathrebu â'n grwpiau bregus trwy ystod eang o fformatau, er mwyn darparu gwybodaeth a'u cefnogi'n well i fyw bywyd mor llawn â phosibl yn ystod yr achosion o'r coronafeirws sy'n drwch ar hyn o bryd.

Cynnydd 2023-2024:

Nid yw'r cam gweithredu hwn yn berthnasol bellach ers diwedd y pandemig.

Blaenoriaeth 6.3 Bod cysylltiadau trafndiaeth yn cael eu cynnal neu eu gwella

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n cefnogi mentrau trafndiaeth gymunedol

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n parhau i gefnogi mentrau trafndiaeth gymunedol. Yn 2023-2024, darparwyd arian trwy grantiau trydydd sector i DANSA, sef gwasanaeth trafndiaeth gymunedol nid-er-elw ar gyfer pobl sy'n methu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol. Fel un o sefydliadau strategol y Trydydd Sector, dyfarnwyd £37,000 o Grant Trydydd Sector i Drafnidiaeth DANSA ar gyfer 2023-2024.

Cam Gweithredu: Byddwn ni'n arwain y gwaith trafndiaeth ranbarthol o fewn Bargaen Ddinesig Bae Abertawe

Cynnydd 2023-2024:

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau trafndiaeth rhanbarthol gyda'r Cydbwyllgor Corfforaethol.